Papur y Bwrdd

14 Mai 2014

Teitl y Papur	**Dangosfwrdd Corfforaethol – Ein perfformiad ar gyfer 2013/14**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B B 37.14**
Paratowyd y Papur gan:	Ceri Davies John Hogg

Pwrpas y Papur:	**Ystyried adroddiad diwedd blwyddyn y Dangosfwrdd Corfforaethol ar gyfer 2013/14**
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd: • Gymeradwyo'r perfformiad fel y nodir yn y Dangosfwrdd Corfforaethol fel bod modd ei adrodd i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd a rhanddeiliaid allanol.
Angen Penderfyniad:	Amherthnasol

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd:** Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn nodi ein cynnydd o gymharu â'n blaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd yn y flwyddyn gyntaf **Effaith ar yr Economi:** Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn nodi ein cynnydd o gymharu â'n blaenoriaethau ar gyfer yr economi yn y flwyddyn gyntaf **Effaith ar y Gymuned:** Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn nodi ein cynnydd o gymharu â'n blaenoriaethau i gefnogi cymunedau ar gyfer y flwyddyn gyntaf **Effaith ar Wybodaeth:** Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn darparu tystiolaeth i gefnogi proses benderfyniadau'r sefydliad a'i waith

Pwnc

1. Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn dangos ein perfformiad o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Busnes a'r Llythyr Cylch Gwaith. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 2013/14. Bydd yn llywio cynnwys ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf.

2. Ein pwyslais yn ystod y flwyddyn gyntaf oedd sicrhau parhad busnes ar gyfer yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gennym a mynd ati i gyflawni manteision yr achos busnes. Mae rhagor o fanylion am hyn yn yr adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol ar 8 Mai 2014, gweler Atodiad 3.

Crynodeb

3. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r perfformiad ar draws 46 o fesurau'r Dangosfwrdd Corfforaethol (Atodiad 1):

- 33 "gwyrdd" (28 gynt);
- 9 "oren" (bron iawn (o fewn 10%) ar darged) (15 gynt);
- 4 "coch" (sy'n nodi lle nad oeddem wedi bwriadu bod) (3 gynt).

4. Mae gwybodaeth am dueddiadau yn dangos sut mae'r mesurau wedi newid ers y diweddariad diwethaf, ar gael yn y Dangosfwrdd Corfforaethol (Atodiad 1)

5. Ceir dadansoddiad manylach yn yr adroddiadau cryno (Atodiad 2). Dyma'r pwyntiau penodol i'w nodi mewn perthynas â'r mesurau perfformiad:

6. Mae'r diweddariad o Gynlluniau Rheoli Natura 2000 ar "goch" ar ddiwedd y flwyddyn, yn ôl y disgwyl. Mae'r amser staff a ddefnyddiwyd i ymgymryd â hyn wedi'i ddargyfeirio i fynd i'r afael â'r swp sylweddol o gyfraniadau gohiriedig i gytundebau Glastir sy'n cefnogi ffermwyr Cymru ac sy'n cyflawni gwelliannau uniongyrchol i'r amgylchedd. Rydym wedi argymell y gwaith hwn, a bydd yn parhau yn unol â'r bwriad yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15 fel ein bod ni ar "wyrdd" erbyn diwedd y flwyddyn.

7. Mae ein hymateb i ymgynghoriadau cynllunio ar lefel "coch" ar ddiwedd y flwyddyn. Gwelsom gynnydd sylweddol yn llwyth gwaith y Prosiect Seilwaith o Bwys Cenedlaethol (gyda phum prosiect yn ymuno â'r cyfnod archwilio ers Ebrill 2013), cryn dipyn o ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Lleol, a nifer o achosion cynllunio proffil uchel mawr eraill. Rydym wedi blaenoriaethu ein gwaith ymgysylltu ar Brosiectau Seilwaith o Bwys Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol dros waith achosion o ddydd i ddydd. Rydym yn parhau â'n hymdrechion i wella'r gwasanaeth cynllunio trwy weithredu gwelliannau a nodwyd yn ein hadolygiad gan gynnwys sut i ddarparu mwy o gyngor sefydlog ac felly lleihau nifer y ceisiadau a dderbynnir, craffu'n fanylach ar rai rydym yn eu derbyn a datblygu prosesau mwy effeithlon er mwyn lleihau ailadrodd a chysylltiadau trosglwyddo amryfal sy'n rhan o'r broses bresennol. Dyma fydd ein ffocws o hyd yn 2014/15.

8. Rydym yn parhau i ymdrin â'n gwaith cynghori ar y Gyfarwyddeb Cynefinoedd trwy sefydlu timau prosiect i fynd i'r afael ag achosion penodol fel y gallwn roi cyngor

‘unllais’ ar ddatblygiadau newydd mewn lleoliadau sensitif. Cawsom gyngor cyfreithiol mewnol, a byddwn yn adolygu hyn ddechrau 2014/15 fel rhan o’r broses o ddatblygu ein canllawiau. Byddwn yn parhau i adolygu dehongliadau, canllawiau a dogfennau’r cyrff blaenorol i nodi unrhyw anghysondebau sylweddol o ran ymdrin â’r ddeddfwriaeth berthnasol a’i dehongli. Byddwn yn cytuno ar unrhyw newidiadau gofynnol, gan ystyried polisïau perthnasol y llywodraeth, ac yn datblygu Cyfarwyddiadau Gweithredol fel bo’r angen.

9. Rydym wedi mynychu 85% o ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol ar amser, ac yn parhau i gael ôl-drafodaeth lawn o’r digwyddiadau hynny er mwyn dysgu gwersi. Mae’r prif adolygiadau y deliwyd â nhw yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud ag ymchwydd stormydd a llifogydd yn ystod gaeaf 2013/14. Ni wnaethom fynychu rhai digwyddiadau amgylcheddol difrifol o fewn yr amserlenni y ceisiwn lynu atynt.

10. Wrth dorri’n rhydd o’r cyrff a’n rhagflaenodd a chyflawni manteision yr Achos Busnes, llwyddwyd i gyflawni holl amcanion gadael gwasanaeth y Comisiwn Coedwigaeth a 10 o’r 16 o amcanion o ran gadael gwasanaeth Asiantaeth yr Amgylchedd. Hyd yma, nid ydym wedi llwyddo i adael holl wasanaethau Asiantaeth yr Amgylchedd mor gyflym ag y bwriadwyd yn wreiddiol, yn bennaf oherwydd cymhlethdod TGCh allanol Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae trefniadau ymadael sy’n weddill yn Asiantaeth yr Amgylchedd wedi eu hymestyn i mewn i 2014/15.

11. Roedd yr Achos Busnes a oedd yn ymwneud â chreu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys targed o arbed £90 miliwn dros y deng mlynedd cyntaf. Rydym yn amcangyfrif y byddwn wedi arbed gwerth £5.5 miliwn y flwyddyn erbyn diwedd 2013/14, a fydd yn cronni i tua £47 miliwn erbyn y degfed flwyddyn. Rydym yn amcangyfrif y bydd newidiadau arfaethedig eraill yn cynyddu’r arbedion blynyddol i oddeutu £21 miliwn y flwyddyn erbyn 2018/19, gan gynyddu i £123 miliwn erbyn y degfed flwyddyn. Felly, rydym yn hyderus y byddwn yn gallu gwireddu manteision yr achos busnes o £158 miliwn erbyn diwedd y deng mlynedd. Mae ein proffil darogan manteision cyfredol yn brin o’r proffil Achos Busnes yn 2014/15, ond daw yn ôl i ragori ar broffil Achos Busnes 2016/17.

12. Wrth reoli achosion o blâu a chlefydau planhigion rhostiroedd, rydym wedi bod yn gweithio yn unol â’r strategaeth ddiwygiedig ar reoli clefyd Phytophthora Ramorum. Erbyn mis Medi 2013, roedd 29% o’r ardal wedi’i heintio wedi’i thorri neu ei thrin yn addas. Disgwyliwn i’r ffigur hwn wella’n sylweddol erbyn y tro nesaf inni asesu’r sefyllfa. Bu cynnydd sylweddol yn lledaeniad y clefyd yn ystod 2013/14, gyda’r mwyafrif helaeth o gynnydd ar Ystâd Goed Llywodraeth Cymru. I reoli hyn, rydym eisoes wedi clirio 289 hectar o goed llarwydd ac wrthi’n clirio 391 hectar arall.

Cefndir

13. Cafodd y Dangosfwrdd Corfforaethol a’r broses adrodd eu cymeradwyo i’w defnyddio fel rhan o broses monitro perfformiad yn erbyn Cynllun Busnes 2013/14, yng nghyfarfod y Bwrdd ar 9 Gorffennaf 2013. Roedd ein Cynllun Busnes 2013/14 yn ymateb i’n Llythyr Cylch Gwaith cyntaf. Mae’r Dangosfwrdd Corfforaethol yn cynrychioli cyfres o fesurau a ddewiswyd i ddangos y ffordd orau o gyflawni’n cynllun, y Llythyr Cylch Gwaith a mynd i’r afael â’r risgiau pwysicaf sy’n ein hwynebu ni.

14. Roedd ein Llythyr Cylch Gwaith cyntaf gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn nodi y dylem dal sylw arbennig i'r canlynol:

- Cyflawni manteision achos busnes
- Sicrhau parhad busnes
- Mynd ati i orfodi
- Sicrhau ymateb i ddigwyddiadau
- Bwrw ymlaen â dull rheoli ar lefel yr ecosystem
- Blaenoriaethau penodol ar Reoli Peryglon Llifogydd, cefnogi swyddi a busnesau, Mynediad a Hamdden, yn ogystal â'r amgylchedd trefol
- Datblygu ein Cynllun Corfforaethol cyntaf 2014-17

15. Cafodd adroddiad cyntaf y Dangosfwrdd Corfforaethol, ar gyfer mis Ebrill i fis Gorffennaf 2013, ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd ar 4 Medi 2013; a thrafodwyd yr ail adroddiad (Awst-Rhagfyr 2013), yng nghyfarfod y Bwrdd ar 12 Chwefror 2014.

16. Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol, yn Atodiad 1, yn dangos gwybodaeth am berfformiad 46 o fesurau â blaenoriaeth. Yn Atodiad 2, rydym yn darparu 10 adroddiad cryno sy'n nodi beth sydd wedi'i gyflawni a beth sydd angen i'w wneud eto.

17. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi craffu ar berfformiad pob un o'r 46 mesur. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Bwrdd dderbyn cyngor is-grŵp y Bwrdd, er enghraifft, i ddarparu gwybodaeth am dueddiadau a chysylltiadau â blaenoriaethau'r Gweinidog, a'u cynnwys yn yr adroddiad diwedd blwyddyn hwn.

18. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi cynnal proses adrodd gywir yn ogystal ag adolygiad cadarn a her wrth gwblhau'r dangosfwrdd.

19. Mae gan y Bwrdd ddyletswydd gyfreithiol i oruchwylio a chyfeirio Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n atebol i Lywodraeth Cymru. Mae ganddo rôl lywodraethu o graffu ar berfformiad y sefydliad a dwyn y swyddogion gweithredol i gyfrif. Hefyd, mae gan y Bwrdd rôl ychwanegol o adrodd am berfformiad i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

Camau nesaf

20. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r perfformiad fel y nodir yn y Dangosfwrdd Perfformiad fel bod modd adrodd amdano i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd a rhanddeiliaid allanol. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i swyddogion Nawdd o fewn adran y Gweinidog, a fydd yn cynghori'r Gweinidog ac yn rhannu'r adroddiad â Gweinidogion perthnasol eraill.

21. Mae is-grŵp y Bwrdd wedi darparu cyngor ar ddatblygu Fframwaith Perfformiad ar gyfer 2014/15 a fydd yn cynnwys Dangosfwrdd Corfforaethol. Mae'r cyngor hwn yn adeiladu ar Gynllun Corfforaethol 2014-17 a Chynllun Busnes 2014/15. Mae'n defnyddio profiad Dangosfwrdd Corfforaethol y flwyddyn gyntaf, ac mae'r gwaith wedi ystyried croesgyfeiriad rhwng ein cynlluniau ni, cofrestri risg, blaenoriaethau Cylch Gwaith y Gweinidog a buddiannau a godwyd gan y Bwrdd yn flaenorol fel arloesi a phartneriaethau er mwyn darparu'r gyfres o fesurau fwyaf priod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y gellir parhau i adrodd deirgwaith y flwyddyn,

gan fod hyn yn cael ei ystyried yn ddull cadarn ac yn ffordd effeithlon o ddefnyddio adnoddau. Bydd y Bwrdd llawn yn ystyried y fframwaith Perfformiad ar 13 Mai 2014, a bydd yn cael ei ddatblygu er mwyn adrodd am berfformiad pedwar mis cyntaf 2014/15 mewn sesiwn gyhoeddus o gyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref.

Risgiau

22. Heb graffu ar ein perfformiad yn iawn, mae perygl y byddem yn methu â chyflawni blaenoriaethau ein cynllun busnes a fyddai'n arwain at andwyo ein henw da.

Goblygiadau ariannol

23. Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol wrth ddarparu'r adroddiad perfformiad hwn.

Cyfathrebu

24. Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn golygu bod angen cyfathrebu â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

25. Bydd copi o berfformiad y Dangosfwrdd Corfforaethol ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn hysbysu'r cyhoedd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

26. Amherthnasol

Mynegai o'r Atodiadau

Atodiad 1: Dangosfwrdd Corfforaethol (Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 2013/14)
Atodiad 2: Adroddiadau Cryno y Dangosfwrdd Corfforaethol
Atodiad 3: Adroddiad i Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol